

Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug

Mrs Alwen M Bowen
Pennaeth
Headteacher

Mrs Michelle Barry
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher



Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug
Aberfan
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 4NT

Rhyd-y-grug.cymru
Ffôn / Telephone: 01685 351818

Tyfu Dysgu Llwyddo – Grow Learn Succeed

8fed o Fedi 2023

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid,

Croeso i Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug ar ddechrau blwyddyn academiaidd newydd a chyffrous. Edrychaf ymlaen at gyd-weithio â chi unwaith eto eleni er lles a chynnydd addysgol eich plentyn.

Edrychaf ymlaen at eich gweld yn ystod yr wythnosau nesaf ac i gydweithio â chi yn ystod y flwyddyn.

Croeso cynnes

Croeso cynnes i'n holl ddisgyblion a rhieni newydd. Rwy'n sicr byddwch yn mwynhau eich amser yma yn Rhyd y Grug.

Amseroedd Yr Ysgol

Mae drysau a gatiau mynediad yn agor am 08:50y.b. gyda gwersi yn cychwyn yn brydlon am 9y.b. Mae'r ysgol yn cau i'r Feithrin hyd at Flwyddyn 2 am 3:15y.p. a Blynyddoedd 3 i 6 am 3:25y.p. Cesglir disgyblion o'r drysau mynediad a gofynnwn i chi, er diogelwch, i gerdded o amgylch yr adeilad yn hytrach na chroesi'r maes parcio.

Presenoldeb

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau Sirol ynglŷn ag absenoldebau. Mae presenoldeb cyson yn bwysig iawn. Mewn achos o absenoldeb aml fe fydd yr ysgol yn cysylltu â'r Swyddog Lles Addysgol yn unol â'r polisi Sirol. Mewn achos o absenoldeb sydyn, gofynnwn i chi gysylltu â swyddfa'r ysgol cyn 9.30 y.b. Rhif ffôn yr ysgol ydy 01685 351818 a'r ebost yw swyddfa@rhyd-y-grug.cymru.

Os nad ydych wedi cysylltu cyn 10:00 y.b. cewch neges destun yn eich atgoffa. Oni fyddwn yn derbyn galwad ffôn neu neges gan riant yna fe nodir fod eich plentyn yn absennol heb ganiatâd. Pan fo achos o absenoldeb wedi ei gynllunio ymlaen llaw e.e. apwyntiad meddygol, dylech ddanfôn nodyn ymlaen llaw. Gofynnwn i chi hefyd nodi os bydd eich plentyn nôl mewn amser i gael cinio.

Absenoldebau yn ystod y tymor

Mae'n ofyniad cyfreithiol i rieni/gofalwyr gael caniatâd y Pennaeth cyn symud eu plentyn o'r ysgol er mwyn cymryd unrhyw wyliau yn ystod y tymor. Nid oes gan rieni hawl awtomatig i fynd â'u plant allan o'r ysgol am wyliau yn ystod y tymor a gellir rhoi Hysbysiad Cosb iddynt os gwnânt hynny heb drefniant ymlaen llaw gyda'r Pennaeth. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu

i'r Pennaeth awdurdodi gwyliau o'r fath. I wneud cais i blentyn gael caniatâd i fod yn absennol o'r ysgol dylai rhieni lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd i'r ysgol i'w hystyried ymhell cyn yr absenoldeb arfaethedig a chyn ymrwymo i unrhyw gost. Llenwch y ffurflen hon er mwyn gwneud cais am absenoldeb yn ystod y tymor:

<https://forms.gle/jGiaaouGo2YfDvpf6>

Addysg Gorfforol

Bydd angen cit Addysg Gorfforol ar eich plentyn a bydd staff yn eich hysbysu yn fuan pa ddyddiau y bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol.

I arbed amser ar y dydd, gofynnaf yn garedig i'ch plentyn ddod i'r ysgol yn eu cit Addysg Gorfforol ar y diwrnodau dynodedig os gwelwch yn dda.

Cyfathrebu

Rydym yn defnyddio system neges destun 'Teacher 2 Parents' er mwyn derbyn hysbysiadau gan yr ysgol. Cofiwch ein diweddarau os oes newid yn eich manylion cyswllt.

Bydd athrawon dosbarth yn darparu codau mynediad newydd i broffiliau SeeSaw dosbarth penodol yn ystod yr wythnosau nesaf hefyd. Hoffwn eich atgoffa bod rhaid cysylltu trwy swyddfa'r ysgol os yw eich plentyn yn absennol o'r ysgol am unrhyw reswm. Hoffwn nodi hefyd na fydd athrawon yn ateb negeseuon Seesaw cyn 8.30yb nac ar ôl 4.30yp.

Gwefan yr Ysgol

Mae gwefan yr ysgol yn gyfredol ac yn cynnwys llawer o wybodaeth am yr ysgol gan gynnwys copiau o lythyron a chylchlythyron:

www.ysgolrhyd-y-grug.cymru

Dilynwch ni ar:

Trydar: @Rhyd_y_Grug

Instagram: rhydygrug

Cinio Ysgol

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cinio ysgol am ddim o fis Medi i ddisgyblion Meithrin hyd at Flwyddyn 4. Cost y pecyn bwyd fydd £2.30 y dydd neu £11.50 yr wythnos. Bydd angen talu trwy ParentPay.

Os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim gallwch ymgeisio trwy'r linc at wefan Cyngor Merthyr Tudful:

<https://www.merthyr.gov.uk/resident/benefits-and-grants/apply-for-free-school-mealspdg-access-clothing-grant/?lang=cy-GB&>

Mae gwybodaeth am fwydlen cinio ysgol ar ein gwefan neu trwy ddilyn y linc hwn:

Clwb Brecwast:

Mae ein Clwb brecwast yn agored o 8:10 - 8:30yb. Ceir mynediad trwy ddrysau cefn y neuadd a gofynnir i rieni barcio a cherdded eu plant at y drws. Blaenoriaethir llefydd i ddisgyblion Prydau Ysgol am Ddim yn y lle cyntaf. Os hoffech wneud cais am le cysylltwch â Swyddfa'r Ysgol. Mae angen gwneud defnydd cyson o'r lle neu byddwn yn ei ddynodi i ddisgybl arall a cewch eich hysbysu am hyn.

Alergeddau:

Mae yna ddisgyblion ag alergeddau difrifol yn yr ysgol. Gofynnaf yn garedig i chi osgoi danfon cnau neu gynhyrchion sy'n cynnwys cnau i'r ysgol. Mae'n hanfodol eich bod yn hysbysu'r ysgol yn syth os yw'ch plentyn yn datblygu alergedd.

OS OES GAN EICH PLENTYN ALERGEDD NEU YN DATBLYGU ALERGEDD HYSBYSWCH YR YSGOL OS GWELWCH YN DDA.

Meddyginiaeth

Asthma: Mae'n ofynnol i rieni sicrhau bod plant sy'n dioddef o'r cyflwr hwn gael eu hyfforddi i ddefnyddio'r sugnydd heb gymorth oedolyn. Dylai rhieni sicrhau bod y sugnydd wedi cael ei labelu yn glir ag enw'r plentyn. Cedwir y sugnyddion yn ystafelloedd dosbarth ac mae'r plant yn cael y rhyddid i ddefnyddio eu sugnyddion yn ôl y galw. Cyfrifoldeb rhieni ydy sicrhau fod sugnyddion mewn dyddiad ac i adnewyddu yn ôl y galw.

Os oes gan eich plentyn gyflwr meddygol mae'n bwysig eich bod yn ein hysbysu ni. Cysylltwch â'r swyddfa gyda'r manylion os gwelwch yn dda.

Moddion: Mae'r ysgol yn dilyn polisi'r Sir o ran gweinyddu moddion. Nid yw'r ysgol yn caniatáu unrhyw foddion o fewn yr adeilad, mae hyn yn cynnwys losin at ddolur gwddw neu annwyd e.e. Locketts, ac unrhyw eli. Ni fydd aelodau o staff yn gweinyddu moddion i blentyn. Byddem yn ddiolchgar petaech yn ceisio amseru dosau meddyginiaeth o gwmpas oriau'r ysgol. Pe na bai hynny'n bosib gofynnwn i chi lenwi ffurflen ganiatad gweinyddu moddion (presgripsiwn yn unig) a caiff eich cais ei ystyried.

Pecyn Bwyd Iach

Rydym yn ysgol iach achrededig. Mae gwybodaeth a syniadau ar sut i baratoi pecyn bwyd iach ar wefan yr ysgol.

<https://ysgol-gymraeg-rhyd-y-grug.secure-primarysite.net/pecynnau-bwyd-iach-healthy-lunch-boxes/>

Grawnwin

Noder os gwelwch yn dda, oherwydd pryderon am dagu, os ydych yn darparu grawnwin i'ch plentyn a wnewch chi eu torri yn hanner ar eu hyd.

Arweinyddiaeth Strategol yr Ysgol:

Mae manylion ein strwythur arwain isod. Mae croeso cynnes i chi drefnu apwyntiad i weld aelodau'r tîm sy'n gyfrifol am rannau gwahanol o'r ysgol:

Mrs Alwen Bowen – Pennaeth

Mrs Michelle Barry – Dirprwy Bennaeth

Mrs Sharon Hedges – Arweinydd Cam Cynnydd 3 a Chydlynedd ADY (Blynyddoedd 4 i 6);

Miss Nia Jenkins – Arweinydd Cam Cynnydd 2 (Blwyddyn 1 i Flwyddyn 3).

Mrs Sali Phillips - Arweinydd Cam Cynnydd 1 (Meithrin a Derbyn)

Diogelu ac Amddiffyn Plant:

Swyddog Diogelu ac Amddiffyn Plant Dynodedig: Mrs. Alwen Bowen.

Dirprwy Swyddogion Diogelu ac Amddiffyn Plant Dynodedig : Mrs. Michelle Barry a Mrs sali Phillips

Llywodraethwr Diogelu ac Amddiffyn Plant: Mrs Michelle Symonds

Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd:

Ni chaniateir mynediad i faes parcio'r ysgol wrth ollwng na chasglu ar ddiwedd y dydd. Mae maes parcio at eich defnydd tu allan i gatiâu'r ysgol. Mae'n hollbwysig bod pob defnyddiwr ffordd yn ymwybodol o ddiogelwch wrth yrru a pharcio yng nghyffiniau'r ysgol.

Dyletswydd pawb yw diogelwch ein holl blant.

Dyddiadau Allweddol:

Yn fuan, byddaf yn cyhoeddi dyddiadau allweddol ar gyfer y tymor.

Isod mae dyddiadau tymor ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon, gan gynnwys dyddiadau hyfforddiant mewn swydd (HMS).

Gwahoddiad:

Fe'ch gwahoddwn yn gynnes i'r ysgol ar ddau achlysur yn yr wythnosau nesaf. Ceir manylion pellach islaw. Dewch yn llw!

Noson Groeso 18.9.23

Cyfle i chi ymweld â dosbarth eich plentyn, cyfarfod â'r athrawon a chlywed ychydig am waith y flwyddyn a sut allwn weithio'n effeithiol gyda'n gilydd i sicrhau addysg o'r radd flaenaf i'n holl ddisgyblion. Byddwn yn rhannu cyflwyniad â chi a bydd angen dewis o 4:00yh, 4:30yh neu 5:00yh. Gofynnwn i chi hysbysu'r athrawon trwy Seesaw pa amser rydych yn dymuno galw heibio.

Noson Gwricwlaidd 3.10.23

Cynhelir noson i chi ddysgu am ddatblygiadau cyffrous Cwricwlwm i Gymru a sut ydym wedi datblygu ein Cwricwlwm penodol ar gyfer Ysgol Rhyd y Grug. Cyflwynwn wybodaeth am feysydd dysgu a phrofiad amrywiol yn cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Byddwn yn rhannu cyflwyniad â chi a bydd angen dewis o 4:00yh, 4:30yh neu 5:00yh. Gofynnwn i chi hysbysu'r athrawon trwy Seesaw pa amser rydych yn dymuno galw heibio.



Y Flwyddyn Academaidd 2023/2024

TYMOR	Y TYMOR YN DECHRAU	HANNER TYMOR YN DECHRAU	HANNER TYMOR YN GORFFEN	Y TYMOR YN GORFFEN
HYDREF 2023	Dydd Llun 4 Medi	Dydd Llun 30 Hydref	Dydd Gwener 3 Tachwedd	Dydd Gwener 22 Rhagfyr
GWANWYN 2024	Dydd Llun 8 Ionawr	Dydd Llun 12 Chwefror	Dydd Gwener 16 Chwefror	Dydd Gwener 22 Mawrth
HAF 2024	Dydd Llun 8 Ebrill	Dydd Llun 27 Mai	Dydd Gwener 31 Mai	Dydd Llun 22 Gorffennaf

Clwb Adran Rhyd y Grug - BI 3-6

Fe fyddwn yn ail-ddechrau ein Clwb poblogaidd ar ddydd Mercher, Medi 20fed, 3:30-4:30yh. Fel o'r blaen fe fydd 3 gweithgaredd amrywiol yr wythnos e.e. chwaraeon, dawnsio, coginio, celf ac ati. Byddwn yn hybysu pa weithgareddau ar ddydd Gwener ac yna gallwch fwcio lle ar y dydd Llun canlynol.

Clwb Drama Cwmni Blodau'r Haul - BI 1-6

Caiff y clwb hwn ei redeg gan Delyth a Bethan Mclean ar ddyddiau Mercher o 4:30yh tan 6yh am gost o £6. Croeso i blant Clwb Adran aros i'r clwb hwn hefyd. Mae'r clwb yn dechrau ar ddydd Mercher, 13eg Medi 2023. Rhennir gwybodaeth pellach yn fuan.

Clwb Chwaraeon Urdd - BI 1 a 2

Mae aelodau o staff yr Urdd yn dod mewn i gynnal clwb Chwaraeon ar ddyddiau Iau o 3:30 tan 4:30yh. Rhennir poster â mwy o wybodaeth gennych yn fuan.

Credydau Amser Tempo:

Fel ysgol rydym yn awyddus iawn i ddatblygu ymgysylltiad rhieni ymhellach er budd disgyblion, rhieni a chymuned yr ysgol. Rydym felly'n awyddus i rieni ymuno â chynllun Credydau Amser Tempo.

Mae'r model Credydau Amser yn gweithio'n syml:

- Am bob awr y mae unigolyn yn ei gyfrannu i gymuned neu wasanaeth eu hysgol, maent yn ennill Credyd Amser.
- Yna gellir gwario'r Credyd Amser hwn ar gael mynediad i awr o weithgaredd, megis atyniadau lleol, cyrsiau hyfforddi neu hamdden, neu ei roi i eraill.
- Gellir gwario'r Credydau hyn yn yr ardal leol neu'n genedlaethol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gredydau amser ar eu gwefan: wearetempo.org

Eu tudalen Facebook: **Tempo Time Credits**

Eu ffrwd Trydar: **@tempo_tweets**

Neu drwy edrych ar y llyfryn canlynol:

<https://drive.google.com/file/d/157ON5udUQqROzfgCTyAnDMNFveKsiY3c/view?usp=sharing>

Gallwch ymuno gyda'r cynllun gan ddilyn y linc hwn:

<https://tempotimecredits.org/sign-up/?invite=kzfkjyuy>

Gwirfoddoli yn yr ysgol:

Allwch chi helpu ni mas gydag amrywiol weithgareddau yn yr ysgol? Darllen gyda disgyblion, addurno, cynorthwyo'r GRhA? Os oes gennych peth amser sbar plis darllenwch y llythyr isod a cysylltwch â ni - a gallwch ennill credydau amser am wirfoddoli!

<http://tinyurl.com/mrfk4k>

Manylion cyswllt:

Sicrhewch fod gan swyddfa'r ysgol fanylion cyswllt argyfwng cyfredol i'ch plant. Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn statudol ers blwyddyn a hoffwn eich atgoffa am ein Gweledigaeth a Gwerthoedd, a grewyd gyda'ch mewnbwn chi. Gallwch hefyd weld crynodeb on Cwricwlwm ar wefan yr ysgol:

<https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gymraeg-rhyd-y-grug/UploadedDocument/ca873a05-ecfc-4bd9-ad89-f987d09ce899/crynodeb-cwricwlwm-ysgol-gymraeg-rhyd-y-grug.pdf>

Llwybr Llwyddo
Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug

Cymreictod
Cyfeillgarwch

RYG
Parch

Caredigrwydd
Positifrwydd

Yr hyn sy'n bwysig i'n cymuned
Fel cymuned mae'n bwysig i ni bod ein disgyblion yn gadael Rhyd y Grug yn hapus a hyderus, â balchder yn eu cymuned a'u Cymreictod, wedi datblygu'n wybodus ac uchel eu sgil fel bod hunan-werth cryff ganddynt.

Gweledigaeth ein Cwricwlwm
Er mwyn diwallu'n anghenion a sicrhau'r hyn sy'n bwysig i ni hoffem ddylunio Cwricwlwm sy'n gynhwysol, yn sbarduno a diddori pob disgybl ac yn rhoi pwyslais ar lais y disgybl. Hoffem gwricwlwm amrywiol a chreadigol ei nawws sy'n rhoi bri ar iechyd a lles.

Tyfu - Dysgu - Llwyddo

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar addysg eich plentyn, peidiwch ag oedi i gysylltu â mi neu aelod o'm tîm.

Dymuniadau gorau,

Alwen M Bowen

PENNAETH

Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug

Mrs Alwen M Bowen
Pennaeth
Headteacher

Mrs Michelle Barry
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher



Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug
Aberfan
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 4NT

Rhyd-y-grug.cymru
Ffôn / Telephone: 01685 351818

Tyfu Dysgu Llwyddo – Grow Learn Succeed

8th of September 2023

Dear parents/guardians,

Welcome to Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug at the start of a new and exciting academic year. I look forward to working with you once again this year for the welfare and educational progress of your child.

I look forward to seeing you in the coming weeks and to working with you during the year.

A warm welcome

A warm welcome to all our new pupils and parents. I am sure you will enjoy your time here at Rhyd y Grug.

School Times

Doors and entrance gates open at 08:50am. with lessons starting promptly at 9am. The school closes for Nursery to Year 2 at 3:15 p.m. and Years 3 to 6 at 3:25 p.m. Pupils are collected from the entrance doors and we ask you, for safety, to walk around the building rather than cross the car park.

Attendance

The school follows County guidelines regarding absences. Consistent attendance is very important. In case of frequent absence the school will contact the Educational Welfare Officer in accordance with the County policy. In the event of a sudden absence, we ask you to contact the school office before 9.30 a.m. The school's telephone number is 01685 351818 and the email is office@rhyd-y-grug.cymru.

If you have not contacted before 10:00 a.m. you will receive a text message reminding you. If we do not receive a phone call or message from a parent then it will be noted that your child is absent without permission. When there is a case of absence planned in advance e.g. medical appointment, you should send a note in advance. We also ask you to note if your child will be back in time for lunch.

Absences during term time

It is a legal requirement for parents/carers to obtain the permission of the Headteacher before removing their child from school in order to take any leave in term time. Parents do not have an automatic right to take their children out of school for leave during term time and may be issued with a Penalty Notice if they do so without prior arrangement with the Headteacher. The legislation only allows the Headteacher

to authorise such leave in exceptional circumstances. To apply for a child to be granted leave from school parents should complete this form and return it to school for consideration well in advance of the proposed leave and before committing to any expense.

<https://forms.gle/g45nuh9nJkiaNa9g9>

Physical Education

Your child will need a Physical Education kit and staff will soon inform you which days your child will take part in Physical Education lessons.

To save time on the day, I kindly ask that your child comes to school in their Physical Education kit on the designated days please.

Communication

We use a 'Teacher 2 Parents' text message system in order to receive notifications from the school. Remember to update us if there is a change in your contact details.

Class teachers will provide new access codes to specific class SeeSaw profiles in the coming weeks as well. I would like to remind you that contact must be made through the school office if your child is absent from school for any reason. I would also like to point out that teachers will not answer Seesaw messages before 8.30am and after 4.30pm.

School website

The school's website is up to date and contains a lot of information about the school including copies of letters and circulars:

www.ysgolrhyd-y-grug.cymru

Follow us on:

Twitter: @Rhyd_y_Grug

Instagram: rhydygrug

School Lunch

The Welsh Government will provide free school lunches from September for Nursery to Year 4 pupils. The cost of the packed lunch will be £2.30 per day or £11.50 per week. Payment will need to be made via ParentPay.

If you think you are eligible to receive a free school lunch you can apply via the link to the Merthyr Tydfil Council website:

<https://www.merthyr.gov.uk/resident/benefits-and-grants/apply-for-free-school-mealspdg-access-clothing-grant/?lang=en-GB&>

Information about the school lunch menu is on our website or by following this link:

<https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gymraeg-rhyd-y-grug/UploadedDocument/939a57f0-2b29-48e7-b88c-d7f5390f6dcc/bydlen-medi-2022.pdf>

Breakfast Club

Our breakfast Club is open from 8:10 - 8:30am. Entrance is via the back hall doors and parents are asked to park and walk their children to the door. Places are prioritised for Free School meals pupils in the first instance. If you would like to apply for a place please contact the School Office. It is necessary to make regular use of the place or we will designate it to another pupil and you will be informed about this.

Allergies

There are pupils with severe allergies in the school. I kindly ask you to avoid sending nuts or products containing nuts to the school. It is essential that you inform the school immediately if your child develops an allergy.

IF YOUR CHILD HAS AN ALLERGY OR DEVELOPS AN ALLERGY PLEASE NOTIFY THE SCHOOL.

Medication

Asthma: Parents are required to ensure that children who suffer from this condition are trained to use the pump without the help of an adult. Parents should ensure that the pump has been clearly labelled with the child's name. The pumps are kept in classrooms and the children are given the freedom to use them as required. It is the responsibility of parents to ensure that pumps are up to date and to renew as required.

If your child has a medical condition it is important that you inform us. Please contact the office with the details.

Medicines: The school follows the County's policy regarding the administration of medicines. The school does not allow any medicines within the building, this includes sweets for sore throats or colds e.g. Linctets, and any ointment. Members of staff will not administer medication to a child. We would be grateful if you would try to time medication doses around school hours. If that is not possible we ask you to fill in a medicine administration permission form (prescription only) and your request will be considered.

Healthy Lunch Box

We are an accredited healthy school. There is information and ideas on how to prepare a healthy lunch pack on the school's website.

<https://ysgol-cymraeg-rhyd-y-grug.secure-primariesite.net/pecysyn-byd-iach-healthy-lunch-boxes/>

Grapes

Please note, due to choking concerns, if you provide grapes to your child please cut them in half lengthwise.

School Strategic Leadership

Details of our leadership structure are below. You are warmly welcomed to arrange an appointment to see the team members responsible for different parts of the school:

Mrs Alwen Bowen – Headteacher

Mrs Michelle Barry – Deputy Head

Mrs Sharon Hedges – Progression Step 3 Leader and ALN Co-ordinator (Years 4 to 6);

Miss Nia Jenkins – Progression Step 2 Leader (Year 1 to Year 3).

Mrs Sali Phillips - Progression Step 1 Leader (Nursery and Reception)

Safeguarding and Child Protection

Designated Child Protection Officer: Mrs. Alwen Bowen.

Designated Deputy Child Protection Officers: Mrs. Michelle Barry and Mrs Sally Phillips

Child Protection Governor: Mrs Michelle Symonds

Parking and Road Safety

Access to the school car park is not permitted when dropping off or collecting at the end of the day. There is a car park for your use outside the school gates. It is vital that all road users are aware of safety when driving and parking in the vicinity of the school.

The safety of all our children is everyone's responsibility.

Key Dates

I will announce key dates for the term soon.

Below are term dates for this academic year, including in-service training (INSET) dates.

Invitation:

We warmly invite you to the school on two occasions in the coming weeks. Further details can be found below. Please come along!

Welcome meeting 18.9.23

An opportunity for you to visit your child's class, meet the teachers and hear a little about the year's work and how we can work effectively together to ensure a first class education for all our pupils. We will share a presentation with you, please choose between 4:00pm, 4:30pm or 5:00pm. We ask that you inform the teachers via Seesaw what time you wish to drop in.

Curriculum meeting 3.10.23

An evening will be held for you to learn about the exciting developments of Curriculum for Wales and how we have developed our specific Curriculum for Ysgol Rhyd y Grug. We will present information on

various areas of learning and experience including Relationship and Sexuality Education. We will share a presentation with you and you will need to choose from 4:00pm, 4:30pm or 5:00pm. We ask that you inform the teachers via Seesaw what time you wish to drop in.



Academic Year 2023/2024

TERM	TERM BEGINS	HALF TERM STARTS	HALF TERM ENDS	TERM ENDS
AUTUMN 2023	Monday 4th September	Monday 30th October	Friday 3rd November	Friday 22nd December
SPRING 2024	Monday 8th January	Monday 12th February	Friday 16th February	Friday 22nd March
SUMMER 2024	Monday 8th April	Monday 27th May	Friday 31st May	Monday 22nd July

Rhyd y Grug Adran Club - Yrs 3-6

We will be re-starting our popular Club on Wednesday, September 21st, 3:30-4:30pm. As before there will be 3 different activities a week e.g. sports, dancing, cooking, art etc. We will notify which activities on Friday and then you can book a place on the following Monday.

Cwmni Blodau'r Haul Drama Club - Yrs 1-6

This club is run by Delyth and Bethan Mclean on Wednesdays from 4:30pm to 6pm at a cost of £6. Clwb Adran children are welcome to stay for this club too. The club starts on Wednesday, 13th September 2023. More information will be shared shortly.

Urdd Sports Club - Year 1 and 2

Members of the Urdd staff come in to run a Sports club on Thursdays from 3:30 to 4:30pm. A poster with more information will be shared with you shortly.

Tempo Time Credits

As a school we are very keen to further develop parental engagement for the benefit of pupils, parents and the school community. We are therefore keen for parents to join the Tempo Time Credit scheme.

The Time Credits model works simply:

- For every hour an individual contributes to their school's community or service, they earn Time Credit.
- This Time Credit can then be spent on accessing an hour of activity, such as local attractions, training or leisure courses, or give it to others.
- These Credits can be spent locally or nationally.

You can find more information about time credits on their website: wearetempo.org

Their Facebook page: **Tempo time credits**

Their Twitter feed: **@tempo_tweets**

Or by looking at the following booklet:

<https://drive.google.com/file/d/157ON5udUQqROzfgCTyAnDMNFveKsiY3c/view?usp=sharing>

You can join the scheme by following this link:

<https://tempotimecredits.org/sign-up/?invite=kzfkjyuy>

Volunteering at school:

Can you help us with various activities at school? Reading with pupils, decorating, helping the PTA? If you have some spare time please read the letter below and contact us - and you can earn time credits for volunteering!

<http://tinyurl.com/mrfk4k>

Contact details

Please ensure the school office has current emergency contact details for your children. It is essential that you inform us of any changes during the year.

Curriculum for Wales

Curriculum for Wales has been statutory for a year and I would like to remind you about our Vision and Values, created with your input. You can also see a summary of our Curriculum on the school's website:

<https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gymraeg-rhyd-y-grug/UploadedDocument/ca873a05-ecfc-4bd9-ad89-f987d09ce899/crynodeb-cwricwlwm-ysgol-gymraeg-rhyd-y-grug.pdf>

Llwybr Llwyddo
Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug

Cymreictod
Cyfeillgarwch
Parch
Caredigrwydd
Positifrwydd

Yr hyn sy'n bwysig i'n cymuned
Fel cymuned mae'n bwysig i ni bod ein disgyblion yn gadael Rhyd y Grug yn hapus a hyderus, â balchder yn eu cymuned a'u Cymreictod, wedi datblygu'n wybodus ac uchel eu sgil fel bod hunan-werth cryf ganddynt.

Gweledigaeth ein Cwricwlwm
Er mwyn diwallu'n anghenion a sicrhau'r hyn sy'n bwysig i ni hoffem ddylunio Cwricwlwm sy'n gynhwysol, yn sbarduno a diddori pob disgybl ac yn rhoi pwyslais ar lais y disgybl. Hoffem gwricwlwm amrywiol a chreadigol ei nawys sy'n rhoi bri ar iechyd a lles.

Tyfu - Dysgu - Llwyddo

If you would like to discuss any aspect of your child's education, please do not hesitate to contact me or a member of my team.

Best wishes,

Alwen M Bowen

HEADTEACHER